Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher y 12fed o Orffennaf 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Maer y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Christoph Fischer, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. Owen James, y Cyng. Rebecca Butcher, Roger Phillips (Clerc Tref) Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Lesley Prosser

Cof 89 / Gorff / 17 Datganiadau o fuddiant

Cof 90/ Gorff / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/35711 Cais Adeilad Rhestredig. Ail-rendro wal ddeheuol Ystafell De Tŷ Newton ym Mharc Dinefwr.
Sylw: Dim gwrthwynebiad, ar yr amod eu bod yn cwrdd â'r rheoliadau i gyd.

E/35613 Estyniad dau lawr yn Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

Cof 91 / Gorff / 17 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

Cof 92 / Gorff / 17 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Linda Rees Jones, Pennaeth y Gyfraith CSG. Eglurhad bod modd i'r Cyngor gynnig arsylwadau ar Gais Cynllunio E/35613 yn Neuadd y Sir, er mai'r Cyngor Tref yw perchennog yr adeilad.
2. Graham Noakes, Swyddog Cynllunio CSG, yn ymateb i ymholiad y Cyngor mewn perthynas â chais E/35395. Roedd y mater yn dal i gael ei ystyried.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc yn ysgrifennu at bob un o bwyllgor cynllunio CSG, gyda gwrthwynebiadau'r Cyngor Tref i'r cais, oherwydd ei fod wedi cael ei adeiladu heb ganiatâd cynllunio. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Christopher Parish. Roedd pawb o blaid.

Cof 93 / Gorff / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Roedd peth sbwriel wedi cael ei ollwng ym Mharc Le Conquet ac roedd ganddo beth tystiolaeth a allai ddatgelu'r troseddwr. Byddai'r wybodaeth yn cael ei drosglwyddo i CSG i ymchwilio ymhellach.
Soniodd y Maer wrth yr aelodau am borth gwefan CSG, a oedd yn galluogi'r Cyhoedd i adrodd am achosion o ollwng sbwriel.
Cafwyd cais gan Mr Davies am i CSG i ddarparu mwy o arwyddion i'w codi ym Mharc Le Conquet a Pharc Penlan, i annog pobl i waredu eu sbwriel yn gyfrifol.

Cytunwyd i gynnal cyfarfod o'r is-grŵp goleuadau Nadolig ar y 25ain o Orffennaf yn Neuadd y Sir am 5.30yh.
Cynigodd y Cyng. Rebecca Butcher bod y pwyllgor yn argymell wrth y Pwyllgor Cyllid bod ffyn o fath baton yn cael eu prynu, i'w defnyddio yn nigwyddiadau cyhoeddus y Cyngor. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.

Cof 94 / Gorff / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd
Llywodraeth Cymru / Asiantaeth Cefnffyrdd yn cydnabod gwrthwynebiad y Cyngor i'r cyfyngiadau aros sy'n arfaethedig yn Ffairfach.

Cof 95 / Gorff /17 Gohebiaeth

1. Lloyd's British, gwybodaeth am newid perchenogaeth gan Speedy Hire PLC. Nodwyd.
2. Amanda Bebb CSG / Jenny Murphy, Llywodraeth Cymru, yn gofyn i bob Cynghorydd gwblhau arolwg yn dilyn yr etholiad diweddar. Nodwyd.
3. Y Maer, mewn perthynas â sylwadau a dderbyniwyd gan y trigolion am goed sydd wedi tyfu'n wyllt ar hyd y Cilgant. Gofynnwyd i'r Clerc i ysgrifennu at Mr Tom Lloyd a Mr Ros Beynon, perchenogion y lleiniau gardd lle mae'r coed sydd wedi tyfu'n wyllt yn rhwystro'r golygfeydd dros ddyffryn Tywi.
4. Helen Adam, Trawsnewid Llandeilo, mewn perthynas â'u cynnig nhw i blannu perllan ym Mharc Penlan.
   Byddai'r Clerc yn ysgrifennu i wahodd cynrychiolwyr i annerch y Pwyllgor Cynllunio ar y 10fed o Ionawr 2018.

Cof 96 / Gorff / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.58yh.